# Llawlyfr Oed Trosglwyddo

## Gwybodaeth i deuluoedd pobl ifanc sy'n trosglwyddo i wasanaethau oedolion

Mae'r clawr wedi ei gynllunio gan Cerys Hudson ac Aaron Plemming

**Cynnwys**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **Tudalen 5** |
| **2** | **Beth yw trosglwyddo?** | **Tudalen 6** |
| **3** | **Ar ôl Gwasanaethau Arbenigol Plant - Cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ymddiriedolaeth Iechyd** | **Tudalen 9** |
| **4** | **Be nesa'?** | **Tudalen 12** |
| **5** | **Materion Ariannol** | **Tudalen 17** |
| **6** | **Lle i fyw?** | **Tudalen 21** |
| **7** | **Dipyn o bopeth** | **Tudalen 22** |
| **8** | **Cysylltiadau** | **Tudalen 26** |

# Cyflwyniad

Mae tyfu i fyny yn gyfnod cyffrous i berson ifanc, amser i brofi pethau newydd, gwneud ffrindiau newydd ac ennill sgiliau newydd. Yng nghanol y cyffro gall fod yn gyfnod ansicr - beth yw'r opsiynau? - ble i fynd am help? - beth ydw i eisiau gwneud? Gobaith y llawlyfr yma yw ateb rhai o'r cwestiynau yma a rhoi pobl ifanc a'u teuluoedd ar ben ffordd i wneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y llawlyfr yn rhoi braslun i chwi o'r hyn fydd ar gael wrth i berson ifanc adael Gwasanaethau Arbenigol Plant a symud yn ei flaen i fyd oedolion. Byddwch yn derbyn y llawlyfr yma fel i'r person ifanc droi'n 14 i'ch galluogi i gychwyn meddwl am yr hyn yr hoffai ei wneud a'r hyn sydd ar gael yn lleol.

Mae pob ymdrech wedi ei wneud i geisio cyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr yn y llawlyfr, cofiwch mi fydd yna wasanaethau ychwanegol ar gael yn lleol. Bydd y Cyfeiriadur Gwasanaeth (y ffeil fawr) yn parhau'n ddefnyddiol ac mi fydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn dal yn berthnasol yn y cyfnod yma.

# Beth yw trosglwyddo?

Ystyr trosglwyddo yw symud o un peth i'r peth nesaf. Yn y cyd-destun yma mae'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r cyfnod o adael ysgol a symud o dderbyn gwasanaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc i wasanaethau i oedolion. Hwn yw'r amser ple mae angen gwneud penderfyniadau ynglŷn â:

- Ar ôl ysgol - Coleg, Hyfforddiant, Gofal dydd neu fyd gwaith?
- Ar ôl Gwasanaethau Arbenigol Plant- pa wasanaethau fydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?
- Lle i fyw - gyda theulu, yn annibynnol, ac opsiynau eraill
- Materion ariannol

Peidiwch â phoeni er eu bod yn benderfyniadau mawr i'w gwneud mae yna gymorth ar gael i wneud y penderfyniadau yma. Mae'n debyg bod y person ifanc yn cael cymorth ar hyn o bryd gan fwy nag un aelod o dîm Gwasanaethau Arbenigol Plant. Bydd y gweithwyr yma yn egluro i chwi a'r person ifanc sut mae pob disgyblaeth (gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, seicolegwyr a'r therapyddion gwahanol) yn eich cyflwyno i'r gwasanaethau ar gyfer oedolion os ydi hynny'n addas. Mae hyn yn digwydd rhwng 16 ac 18 oed yn dibynnu ar y ddisgyblaeth.

Mae'n bwysig cofio na fydd pob person ifanc sy'n derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Arbenigol Plant yn gymwys i dderbyn gwasanaeth fel oedolyn. Mae gan bob gwasanaeth griteria mynediad gwahanol.

## Adolygiad Oed Trosglwyddo

### Beth yw Adolygiad Oed Trosglwyddo?

Os yw'r person ifanc ar Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig bydd cyfarfod yn yr ysgol yn ystod Blwyddyn 9 i ddechrau siarad am ddyfodol y person ifanc a beth all ddigwydd iddynt ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae'r cyfarfod yma yn cael ei alw yn Adolygiad Oed Trosglwyddo.

### Pwy sy'n mynd i Adolygiad Oed Trosglwyddo?

Mae'r canlynol yn cael gwahoddiad i'r adolygiad

- Y person ifanc
- Rhiant neu ofalwr y person ifanc
- Staff o'r ysgol
- Gweithwyr Gwasanaethau Arbenigol Plant
- Gweithwyr o wasanaethau oedolion
- Gyrfa Cymru
- Rhywun arall a all gynorthwyo

Mae'n bwysig bod y person ifanc yn cofio mai ei gyfarfod trosglwyddo hwy yw hwn, eu cyfle nhw i gychwyn gwneud penderfyniadau. Gall gwneud penderfyniadau fod yn haws iddynt pan fo ganddynt bobl y maent yn gallu ymddiried ynddynt i'w helpu. Gallwch wadd eiriolwr neu ffrind i'w helpu yn y cyfarfod.

### Beth sy'n digwydd yn yr Adolygiad Oed Trosglwyddo?

Mi fydd y person ifanc yn cael eu holi ynglŷn â beth yr hoffent ei wneud ar ôl gorffen ysgol a pha gymorth y byddent angen i wneud hyn . Mi fyddai yn syniad da iddynt feddwl am hyn cyn iddynt fynd i'r adolygiad fel bod gyda nhw atebion yn barod. Dylai rhywun fod wedi trafod gyda hwy a'u paratoi. Gall rhywun o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant, yr ysgol, y teulu neu Gyrfa Cymru eu helpu i wneud hyn.

## Beth sy'n cael ei drafod?

Nid y cam nesaf mewn addysg yw'r unig beth sy'n cael ei drafod yn yr adolygiad. Efallai y bydd y person ifanc eisiau siarad am bethau eraill sydd yn ei b/phoeni am y dyfodol, fel gwneud ffrindiau newydd, cael gwaith, delio efo pres neu pa gefnogaeth y byddent angen. Gall rhai o'r pethau yma fod yn bell yn y dyfodol.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr Adolygiad Oed Trosglwyddo?

Ar ôl y cyfarfod bydd Cynllun Trosglwyddo yn cael ei lunio i nodi beth sydd wedi cael ei drafod, beth ddylai ddigwydd nesaf, pwy sy'n mynd i wneud hyn a phryd. Bydd y rhieni a'r person ifanc yn derbyn copi o'r cynllun.

## Gaiff y person ifanc newid ei feddwl ynglŷn â'r hyn sydd wedi cael ei ysgrifennu ar y Cynllun Trosglwyddo?

Caiff, mi fydd yna gyfarfodydd eraill ym mlwyddyn 10 ac 11 ac mi gaiff y cynlluniau eu trafod eto a chaiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

## Beth yw Cynllunio Person Canolog?

Proses o gynllunio bywyd yw Cynllunio Person Canolog sy'n helpu'r person adnabod yr hyn sydd yn bwysig iddynt nawr ac yn y dyfodol. Mae'n helpu pobl ddarganfod pa gefnogaeth y byddent angen er mwyn cyrraedd eu nod mewn bywyd a sut y gallent gael eu helpu i roi fframwaith o'i amgylch. Mae hwn yn gynllun peilot ar hyn o bryd.

# Ar ôl Gwasanaethau Arbenigol Plant

Dyma fraslun o'r gwasanaethau y gall Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr eu cynnig i berson ifanc  Gellir trafod hyn gyda'ch gweithiwr o'r Gwasanaethau Arbenigol Plant.

Mae Timau Gwasanaethau Oedolion o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwasanaethau a chymorth i bobl ifanc/ oedolion sydd yn byw yng Ngwynedd.

**Timau Oedolion Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Tîm Anabledd Corfforol

Mae'r tîm anableddau corfforol yn cydweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a'r tîm therapi galwedigaethol i ddarparu ar gyfer oedolion ag anableddau corfforol i'w galluogi i fyw bywyd sydd mor annibynnol â phosibl.

Mae'r tîm yn gyfrifol am:

- Dderbyn cyfeiriadau am wasanaeth a gwneud asesiad pan yn briodol
- Drefnu gwasanaeth a phecyn gofal
- Gynghori ar daliadau uniongyrchol
- Gydweithio ag asiantaethau arall
- Ddarparu cyngor i ofalwyr

## Tîm Therapi Galwedigaethol

Mae'r tîm yn gweithio i gynorthwyo pobl anabl i'w galluogi i fyw bywydau llawn ag annibynnol.  Mae'r tîm yn gweithio yn agos gyda gofalwyr ac asiantaethau eraill i alluogi pobl anabl fod mor annibynnol â phosibl.

Mae'r tîm yn gyfrifol am:

- Dderbyn cyfeiriadau am wasanaeth a gwneud asesiad pan yn briodol
- Asesiad o'r cartref ac addasiadau priodol
- Ddarparu cyngor ar ddulliau haws a diogel o wneud gweithgareddau dyddiol, fel ymolchi a gwisgo
- Gyngor ar addasu amgylchedd byw/gweithio/hamdden i ymateb i anghenion
- Gyngor ar ail gartrefu os yn addas
- Gyngor i ofalwyr

**Timau Oedolion Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cyd**

**Tîm Iechyd Meddwl**

Mae'r tîm yn cynnwys pobl broffesiynol / gweithwyr o wahanol ddisgyblaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd er enghraifft, gweithwyr cymdeithasol, nyrs, seicolegydd. Mae'r gwasanaeth yn cael ei drefnu ar y cyd gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r tîm yn gyfrifol am:

- Dderbyn cyfeiriadau am wasanaeth a gwneud asesiad pan yn briodol
- Darparu cymorth proffesiynol i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol a'u perthnasau neu ofalwyr
- Drefnu mynediad i wasanaethau eraill, er enghraifft, seicoleg, meddyginiaeth, gweithwyr cefnogol, gwasanaethau dydd, gofal nyrsio a phreswyl a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol

### Tîm Anableddau Dysgu

Mae’r tîm anableddau dysgu yn bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu i’w galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl.

Mae’r tîm yn gyfrifol am:

- Dderbyn cyfeiriadau am wasanaeth a darparu asesiad o anghenion pan yn briodol
- Drefnu gwasanaeth a phecyn gofal
- Ddarparu cymorth proffesiynol, gwybodaeth a chyngor
- Wasanaethau Cynllun Lleoli Oedolion gan gynnwys gofal ysbaid
- Ofal cefnogol cymunedol ac yn y cartref
- Wasanaethau Cynllunio Person Canolog
- Wasanaethau Oed Trosiannol

### Gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth Iechyd

Yn ogystal â’r timau uchod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fydd yn gyfrifol am ddiwallu anghenion iechyd oedolion. Ni fydd y person ifanc yn cael ei weld gan bediatrydd fel oedolion ac os yn briodol bydd yn cael ei gyfeirio ymlaen at arbenigwyr perthnasol. Bydd rhai o’r gweithwyr iechyd y mae’r person ifanc yn arfer ei weld yn newid yn ystod y cyfnod yma. Holwch weithwyr iechyd presennol y person ifanc i wybod pryd neu os bydd y person ifanc yn cael ei drosglwyddo i dimau oedolion. Mae’r oedran trosglwyddo yn amrywio o ddisgyblaeth i ddisgyblaeth rhwng 16 ac 18 oed .

# Be Nesa'?

Un o'r prif newidiadau yn ystod y cyfnod Oed Trosglwyddo yw gadael ysgol. Mae hyn yn codi llawer o gwestiynau ynglŷn â beth i wneud nesaf. Yn 16 oed bydd addysg orfodol yn dod i ben a bydd yn rhaid i'r person ifanc benderfynu pa gyfleon yr hoffai gymryd:

- Aros mewn addysg (aros yn yr ysgol neu fynd i goleg)
- Chwilio am swydd neu waith gwirfoddol
- Cael lle mewn gwasanaeth gofal dydd (os ydynt yn gymwys)

Bydd y rhai sydd yn aros ym myd addysg yn wynebu'r un dewis eto yn 18+. Mae'r bennod yma'n cyflwyno braslun o'r gwahanol opsiynau. Wedi dweud hynny mae'r dewis mor eang allwn ni ond cynnwys ychydig iawn ohonynt yma. Rhoi syniad i chwi o ble i fynd am gymorth a'r math o bethau sydd ar gael ydi'r bwriad. Mae gwybodaeth gyfredol a chynhwysfawr ar gael gan Gyrfa Cymru.

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad mi ddylai'r person ifanc a'r teulu siarad â chymaint o bobl a phosibl

- Athrawon
- Cynghorydd Gyrfaoedd
- Gweithwyr Gwasanaethau Arbenigol Plant

### Rôl Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth a chyfarwyddyd gyrfaol i bobl o bob oed.

Mae Gyrfa Cymru yn :

- Gweithio gyda disgyblion ag anghenion addysgol arbennig o Flwyddyn 9 ymlaen er mwyn eu cynorthwyo i ddeall yr opsiynau sydd ar gael ac i wneud dewisiadau realistig yn unol â'u diddordebau, eu galluoedd a'u dyheadau.

- Darparu gwybodaeth am yrfaoedd, a rhoi cyngor a chymorth ymarferol wrth ddilyn opsiynau priodol ar ôl gadael yr ysgol.
- Gweithio yn agos gyda rhieni/gofalwyr ac mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill er mwyn cefnogi pobl ifanc pan ddaw'r amser i symud ymlaen o'r ysgol.
- Mynychu Adolygiadau Blynyddol o Flwyddyn 9 ymlaen.
- Cymryd cyfrifoldeb arweiniol dros baratoi a chyflwyno ceisiadau am leoliadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru pan fydd yr angen am ddarpariaeth mewn coleg arbenigol yn cael ei adnabod. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â'r person ifanc a'r teulu ac asiantaethau eraill sydd yn adnabod y person ifanc yn dda.
- Paratoi Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gyfer disgyblion sydd yn eu blwyddyn olaf o addysg ac sydd yn rhan o broses cynllunio trosiannol os ydynt yn debygol o fynd ymlaen i addysg bellach, addysg uwch neu hyfforddiant. Gyda chaniatâd y person ifanc, bydd y cynllun yn cael ei basio ymlaen i'r darparwr addysg/ hyfforddiant newydd.
- Parhau i ddarparu gwasanaeth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau wedi iddynt symud ymlaen o'r ysgol.

## Addysg Bellach

### Ysgol

Mae posibilrwydd aros mewn ysgolion arbennig fel Ysgol Pendalar ac Ysgol Hafod Lon gan fod y ddarpariaeth yn parhau tan mae pobl ifanc yn 19. Mae ysgolion Arfon yn cynnig addysg 16-18 oed. Ym Meirionnydd mae'r ysgolion yn cynnig addysg hyd at 16 oed (heb law am Ysgol Berwyn, Y Bala sy'n cynnig addysg 16-18 oed).

**Coleg**

Coleg Meirion-Dwyfor (rhan o Goleg Llandrillo Cymru) sy'n darparu addysg i bobl ifanc 16-18 oed yn y rhan fwyaf o Feirionnydd a Dwyfor. Mae'r coleg ar dri safle yn Nolgellau, Pwllheli a Glynllifon. Mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau.

Coleg ardal Arfon a Môn ydi Coleg Menai ac mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau gan gynnwys AS, A, BTEC a phrentisiaeth fodern. Mi fydd yn rhaid cael cymwysterau e.e. TGAU i wneud rhai cyrsiau ond mae rhai cyrsiau yn agored i bawb. Mae niferoedd o Golegau Addysg Bellach eraill yng Nghymru a Lloegr, rhai ohonynt yn arbenigo mewn rhai pynciau neu yn gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer pobl ifanc/oedolion anabl. Byddai'n syniad da siarad gyda Chynghorydd Gyrfa i drafod yr holl gyfleoedd neu fynd i ymweld â'r colegau.

**Coleg Preswyl**

Mae nifer o golegau preswyl yng Nghymru a thu hwnt yn cynnig cyrsiau i bobl ifanc. Mae rhai myfyrwyr na all eu hanghenion gael eu diwallu gan wasanaethau dydd neu sefydliadau addysgol lleol yn cael lleoliad yn y colegau yma neu os yw'r Coleg Preswyl yn fwy addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Mae lleoliad yn un o'r colegau yma yn ddibynnol ar nawdd ariannol gan Y Cynulliad neu nawdd ar y cyd gan Wasanaethau Cymdeithasol a/neu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gall Cynghorydd Gyrfa rhoi mwy o wybodaeth am gyrsiau mewn colegau preswyl a gwneud cais i'r Cynulliad i gyllido'r lleoliad.

**Addysg Uwch**

Efallai y bydd mynd i brifysgol i wneud gradd yn addas ar gyfer rhai pobl ifanc. Bydd gan y Cynghorydd Gyrfaoedd yn yr ysgol neu goleg wybodaeth am yr holl gyrsiau addas sydd ar gael neu cysylltwch â Gyrfa Cymru. Prifysgol Bangor yw'r Brifysgol leol i ni yng Ngwynedd. Mae gan bob Coleg a Phrifysgol Wasanaeth Cefnogi Myfyrwyr a bydd y wybodaeth ar gael o'u prosbectws neu wefan.

## Cyrsiau eraill

Mae myriad o gyrsiau eraill ar gael yn cynnwys cyrsiau nos a chyrsiau rhan amser, nifer ohonynt yn cael eu rhedeg gan y Colegau Addysg Bellach.

Ceir cyrsiau arbenigol i helpu pobl anabl i fyw'n annibynnol neu i baratoi am fyd gwaith.

## Byd Gwaith

Mae nifer fechan o bobl ifanc gydag anghenion arbennig yn mynd yn syth i mewn i fyd gwaith yn 16 oed.  Os mai dyma'r opsiwn fwyaf addas fe wnaiff y Cynghorydd Gyrfaoedd neu'r Ganolfan Byd Gwaith geisio cynorthwyo i chwilio am swydd addas.

Bydd nifer o bobl ifanc gydag anghenion arbennig angen hyfforddiant bellach neu addysg cyn iddynt fod yn barod i gael eu cyflogi.  Mae nifer o fudiadau ar gael i fod o gymorth i bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer byd gwaith ac yn help iddynt chwilio am waith addas.

Mae gan y Ganolfan Byd Gwaith Gynghorydd Cyflogaeth Anabledd, mae'r cynghorydd yn darparu gwasanaeth cyflawn i bobl anabl sy'n chwilio am swyddi i'w helpu i'r gwaith, yn cynnwys hyfforddiant, asesiadau a rhaglenni paratoi am waith ble bo angen.

## Cyfleoedd gwirfoddol

Mae gwneud gwaith gwirfoddol yn gallu bod yn ffordd dda o gael profiadau newydd ac adeiladu sgiliau.  Gellir cysylltu â Mantell Gwynedd, Cyngor Gwirfoddol Gwynedd, i gael mwy o wybodaeth ynglŷn ag amrywiaeth helaeth o gyfleoedd sydd ar gael yng Ngwynedd.

## Gwasanaeth Dydd

Os yw person ifanc yn ateb criteria mynediad i wasanaethau oedolion efallai y bydd Gwasanaethau Dydd yn fwy addas ar gyfer rhai sy'n

agored i'r Tîm Oedolion ag Anabledd Corfforol a Gwaeledd neu'r Tîm Oedolion ag Anableddau Dysgu. Mae'n bwysig bod y person ifanc yn cyrraedd meini prawf y Gwasanaethau Dydd a bydd y penderfyniad yn cael ei wneud yn sgil asesiad unedig o'u hanghenion.  Mi fydd rhaid trafod gyda Rheolwr Achos (Gweithiwr Cymdeithasol / Nyrs) y person ifanc i weld beth sydd fwyaf addas a beth sydd yn agored / ar gael iddynt.

Mae yna ystod eang o wahanol fathau o ofal dydd ym mhob ardal o Wynedd.  Rhaid cofio mai trwy Reolwr Achos mae trefnu Gofal Dydd. Ni fydd pob opsiwn yn addas ar gyfer pob person ifanc ac efallai y bydd rhai lleoliadau yn llawn.

**Cost gwasanaeth**

Yn wahanol i wasanaethau ar gyfer plant mae'n rhaid talu am rai gwasanaethau i oedolion. Mae'r taliadau yn amrywio yn ddibynnol ar y lefel o wasanaeth y mae'r person yn ei dderbyn a'r gallu i dalu. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â hyn siaradwch gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol.  Yn y bennod nesaf cewch fraslun o'r cymorth ariannol sydd ar gael i berson ifanc anabl.

# Materion Ariannol

**Budd-daliadau**

Os oes gan berson ifanc anabledd, efallai y byddant yn gymwys i dderbyn y budd-daliadau canlynol.   Bydd hawliau i rai o'r budd-daliadau yma yn ddibynnol ar yr effaith y mae'r anabledd yn cael ar eu bywyd,  ac os yw'r amodau cymhwyso yn cael eu bodloni.

Dyma rai o'r prif fudd-daliadau sydd ar gael:-

**Lwfans Byw I'r Anabl (DLA)**

Mae gan Lwfans Byw I'r Anabl ddwy gydran: gofal a symudedd

Lwfans Byw I'r Anabl Gofal - gall hyn cael ei dalu o oed ifanc os oes angen gofal personol neu oruchwyliaeth ychwanegol ar y plentyn.  Mae tair graddfa o daliadau - isel, canolig ac uchel.

Lwfans Byw I'r Anabl Symudedd - gall hwn gael ei dalu i rywun na all gerdded neu sydd efo problemau symudedd dwys.  Gall y raddfa isel gael ei dalu os ydi'r unigolyn yn gallu cerdded ond angen goruchwyliaeth ychwanegol oddi allan.  Mae'r raddfa uwch yn cael ei dalu mewn amgylchiadau ble mae unigolion yn derbyn y raddfa uwch o'r elfen gofal a gydag anghenion symudedd dyrys.

Yn 16 oed mae y rhan fwyaf o bobl ifanc gydag anabledd yn gallu hawlio budd-daliadau ar eu liwt eu hunain er efallai eu bod yn dal i fod yn yr ysgol neu mewn coleg. Y prif fudd-daliadau i'w cysidro ydi:

- Cymhorthdal incwm
- Budd-dal analluogrwydd
- Credyd treth Person Anabl ( os ydi'r person ifanc yn gweithio mwy na 16 awr.

### Cymhorthdal Incwm

Yn 16 oed gall person ifanc anabl hawlio Cymhorthdal Incwm eu hunain hyd yn oed os ydynt yn byw gartref, yn yr ysgol neu yn hyfforddi.

Os ydynt yn dal i fod yn yr ysgol, mi fydd yn rhaid i'r person ifanc brofi eu bod yn annhebygol o gael hyd i waith os fyddent yn gadael ysgol yn awr neu o fewn y flwyddyn nesaf. Os ydynt wedi gadael ysgol mi fydd yn rhaid iddynt ddangos eu bod yn analluog i weithio.

### Budd-dal analluogrwydd

Bydd person yn gorfod bod yn analluog i weithio am 28 wythnos cyn gall hawlio'r budd-dal.

### Credyd Treth Person Anabl

I fod yn gymwys ar gyfer y budd-dal hwn rhaid i berson ifanc fod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Bydd yn ofynnol iddynt ddangos fod eu hanabledd yn achosi anfantais iddynt wrth chwilio am waith.

Gall y ffaith bod pobl ifanc yn derbyn eu budd-daliadau eu hunain effeithio ar swm y budd-daliadau y mae'r rhieni neu ofalwyr yn ei dderbyn. Byddai yn ddefnyddiol iawn chwilio am gyngor arbenigol am fudd-daliadau gan y gall fod yn fater / faes cymhleth iawn. Mae gan Cyngor Gwynedd dîm o Gynghorwyr Budd-daliadau a all helpu pobl anabl a'u teuluoedd neu gellir gwneud apwyntiad yn y Ganolfan Gynghori (CAB)

### Disgownt Treth Cyngor

Mae disgownt ar gael ar dreth cyngor i bobl anabl sydd ddim yn ddibynnol ar incwm neu gynilion:

- Gostyngiad Anabledd - lle mae eiddo wedi ei addasu neu fod ystafell yn cael ei ddefnyddio yn benodol ar gyfer person anabl.
- Disgownt Gofalwyr - ar gyfer gofalwyr sydd yn edrych ar ôl rhywun sydd ddim yn bartner iddynt nac yn blentyn iddynt sydd o dan 18 ac yn derbyn Lwfans Byw I'r Anabl ar y raddfa uchaf.

- Anwybyddiad Amhariad Difrifol ar y Meddwl – ar gyfer person gydag Amhariad Meddwl (e.e. anabledd dysgu dwys) ac sy'n derbyn budd-daliadau penodol.

**Materion ariannol eraill**

**Cronfa Byw yn Annibynnol (ILF)**

Gall y gronfa yma fod o help i rai pobl ifanc anabl sydd dros 16 ac yn cyrraedd ei chriteria.  Cafodd y gronfa genedlaethol yma ei sefydlu er mwyn rhoi cefnogaeth ariannol i bobl anabl i'w galluogi i fyw yn y gymuned yn hytrach na mewn gofal preswyl.

Pwy sy'n gymwys?

I dderbyn cymorth rhaid bodloni'r meini prawf isod:

- Yn derbyn o leiaf £320, neu wasanaethau cyfwerth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Yn o leiaf 16 ac o dan 66 mlwydd oed.
- Yn derbyn cydran gofal Lwfans Byw i'r Anabl ar y raddfa uwch.
- Yn disgwyl byw yn y gymuned am y tri mis nesaf.
- Llai na £18,500 o gyfalaf.

Gall y gronfa dalu i fyny at £455 yr wythnos ar ben mewnbwn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mi ddylech chi drafod y ffynhonnell yma o gyllid gyda'ch Gweithiwr Cymdeithasol.

**Taliadau uniongyrchol**

Bwriad Taliadau Uniongyrchol yw galluogi unigolion i gwrdd â'u hanghenion gofal gan ystyried yn fanylach eu hamgylchiadau unigol, a sicrhau mwy o reolaeth a hyblygrwydd.

Gellir defnyddio'r taliadau i gyflogi gweithwyr gofal/cefnogol, yn uniongyrchol neu drwy asiantaeth. Byddai'r gweithwyr yn darparu gofal personol, tasgau domestig hanfodol a gofal ysbaid, gan hyrwyddo pecynnau gofal mwy 'creadigol ac arloesol'.

Os cytunir bod person ifanc yn gymwys i dderbyn Gwasanaeth Gofal yn y Gymuned, gellir dewis derbyn taliadau ariannol misol i gyfrif banc er mwyn trefnu a phrynu gwasanaethau yn uniongyrchol yn hytrach na derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae taliadau uniongyrchol ar gael i unigolion sy'n cytuno i'w derbyn ac sy'n cael eu hystyried yn alluog i reoli taliadau o'r fath gyda chymorth ychwanegol os bydd ei angen.

Dylid trafod yr opsiwn o Daliadau Uniongyrchol gyda Gweithiwr Cymdeithasol.

# Lle i fyw?

Dyma un o'r cwestiynau mawr sydd yn codi yn ystod Oed Trosglwyddo person ifanc. Mae pob person ifanc yn wahanol a ni fydd pob opsiwn yn addas ar gyfer pob person ifanc. Bydd rhai pobl ifanc a'u teuluoedd yn hapus i'r person ifanc barhau i fyw gartref ond bydd eraill yn dymuno byw yn annibynnol ac efallai y bydd cymorth ar gael i bobl ifanc fyw yn annibynnol yn y gymuned. Mae mwy o wybodaeth ar gael am hyn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Adran Dai. Yng Ngwynedd mae rhai Cymdeithasau Tai yn cynnig gwasanaeth i bobl anabl.

Enghreifftiau o opsiynau llety (yn ddibynnol ar asesiad gan y gweithiwr priodol) :

- Byw gartref gyda chefnogaeth
- Tenantiaeth eu hunain gyda chefnogaeth
- Cyd rannu tenantiaeth gydag unigolion eraill
- Cynllun Lleoli Oedolion

Gellir cael asesiad er mwyn cael addasiadau i'r tai os yw'n addas. Trafodwch hyn gyda Gweithiwr Cymdeithasol y person ifanc.

# Dipyn o bopeth

Mae'r bennod yma yn sôn am wasanaethau eraill mae'n bosib y bydd person ifanc angen eu cysidro yn y blynyddoedd nesaf. Ni fydd pob un yn berthnasol i bob person ifanc ac o gofio'r ystod eang o bethau sydd ar gael, nid yw'n rhestr derfynol o bell ffordd. Serch hynny, mae'n rhoi syniad i chwi o'r hyn sydd ar gael. Ar gyfer rhai gwasanaethau mae'n bwysig fod person ifanc yn cyrraedd criteria'r gwasanaeth yn dilyn asesiad.

### Symud o gwmpas/ teithio

### Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae cael yr hyder i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar ben eu hunain yn galluogi person ifanc i fod yn fwy annibynnol. Os ydi anghenion y person ifanc yn cyrraedd y gofynion gellir cael tocyn i deithio ar y bws am ddim gan Gyngor Gwynedd. Pe bae'r person ifanc angen rhywun i deithio gyda hwy gall y person hwnnw deithio am ddim hefyd. Yn ogystal mae'n bosibl cael cerdyn i gael disgownt wrth deithio ar drên.

### Ceir

### Treth Car

Os yw person ifanc yn derbyn y gyfran symudedd Lwfans Byw I'r Anabl ar y raddfa uwch nid yw'n ofynnol iddynt dalu treth car, os nad yw'r person ifanc yn gyrru gall enwebu rhywun i hawlio eithriad treth car.

### Motobility

Mae Motobility yn galluogi pobl anabl neu eu gofalwyr i ddefnyddio eu cyfran symudedd Lwfans Byw I'r Anabl ar y raddfa uwch i logi neu brynu car newydd, cadair olwyn wedi'i bweru neu sgwter arbenigol.

### Cynllun y Bathodyn Glas

Mae'r Cynllun Bathodyn Glas yn darparu trefn genedlaethol o gonsesiynau parcio ar gyfer parcio ar y stryd i bobl ag anawsterau cerdded difrifol sy'n teithio fel gyrwyr neu fel teithwyr. Mae'r cynllun hefyd yn gymwys i bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall yn ogystal â'r rheini

sydd ag anabledd difrifol yn y ddwy fraich, yn gyrru cerbyd yn rheolaidd ond ddim yn gallu troi'r llyw â'u dwylo.  Y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn gweinyddu'r cynllun yma.

**Dysgu gyrru car**

Gall berson ifanc sy'n derbyn, cydran Symudedd  Lwfans Byw i'r Anabl ar y lefel uwch gychwyn dysgu gyrru yn 16.  Yng Nghanolfan Asesu Gyrwyr Anabl Gogledd Cymru gellir cael asesiad i ganfod gallu corfforol a gwybyddol unigolion i yrru cerbyd yn ddiogel ac esmwyth.

**Hamdden**

Mae mynediad i gyfleoedd yn rhan bwysig o fywyd unrhyw unigolyn. Mae'n debygol y bydd person ifanc eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.  Gall y llyfrgell leol fod yn lle da i gael gwybodaeth ynglŷn â gweithgareddau lleol.

Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn gwneud person yn iachach ac yn hapusach, gall fod yn ffordd dda o gyfarfod pobl newydd.  Holwch yn eich canolfan hamdden leol am weithgareddau, neu siaradwch efo Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cyngor Gwynedd sydd yn cadw gwybodaeth am holl gyfleoedd chwaraeon sy'n addas i bobl anabl.

**Gofalwyr**

Gofalwr yw rhywun sydd yn edrych ar ôl partner, rhiant, plentyn, brawd neu chwaer, perthynas arall neu ffrind sydd yn sâl neu'n anabl ac na fyddai'n medru byw yn y gymuned heb gymorth sylweddol cyson eu gofalwr.

Credir fod oddeutu 14,000 o Ofalwyr yng Ngwynedd, a thrwy ei Strategaeth Gofalwyr, ceisia Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid ddarparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer Gofalwyr.

Cydnabyddir fod y rhan fwyaf o bobl sydd yn edrych ar ôl perthnasau neu ffrindiau'n hapus i wneud hynny, ond gall gofalu am rywun fod yn feichus ac fe allai effeithio rhannau eraill o'ch bywyd.

Gall Cyngor Gwynedd, ynghyd ag Asiantaethau Statudol a Sefydliadau Partner eraill, ddarparu gwasanaethau cefnogol i chi fel Gofalwr, er mwyn eich cynorthwyo i edrych ar ôl y person yr ydych yn gofalu amdano ef/ amdani hi; os dymunwch wneud hynny.

Bod yn Ofalwr

Gall Gofalwr ddarparu peth neu'r oll o'r rhestr a ganlyn:

- Gofal personol
- Gofal a chefnogaeth emosiynol
- Cynorthwyo'r oedolyn neu'r plentyn anabl i ymdrin â phroblemau salwch ac anabledd, salwch meddwl, camddefnydd o gyffuriau a/neu alcohol, neu HIV/AIDS.
- Goruchwyliaeth i gadw'r oedolyn neu'r plentyn yn ddiogel.
- Eiriolaeth.
- Trefniadau ymarferol ar gyfer byw o ddydd i ddydd.
- Ymatebion hyblyg ac addas i anghenion sy'n newid.

Os ydych chi'n Ofalwr, mae'n ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i gynnig Asesiad Gofalwr i chi fel y gallwch, os ydych yn gymwys, dderbyn cefnogaeth yn eich swyddogaeth ofalu, neu mewn agweddau eraill o'ch bywyd megis gwaith, hamdden/hyfforddiant neu gyfrifoldebau teuluol eraill; a fydd yn eich galluogi i barhau i ofalu.

Bydd yr asesiad yn ein cynorthwyo, gyda'ch cymorth chi, i edrych ar eich anghenion chi fel Gofalwr, a phenderfynu gyda chi sut y gellir gwneud y gwasanaethau cefnogol ar gael i chi, os fyddwch yn gymwys.

## Eiriolaeth

Gall defnyddio eiriolwyr helpu person ifanc i fod yn fwy annibynnol yn ystod y cyfnod oed trosglwyddo.  Pwrpas eiriolaeth yw sicrhau bod llais

a dymuniadau' r person ifanc yn cael eu clywed. Mae eiriolwyr yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth, cynrychiolaeth a chyngor i bobl ifanc i'w galluogi i chwarae rhan flaenllaw yn y penderfyniadau am eu dyfodol. Mae Tros Gynnal a NYAS ( National Youth Advocacy Service) yn cynnig eiriolaeth i bobl ifanc yng Ngwynedd.

# Cysylltiadau

## Gwasanaethau Arbenigol Plant

Arfon
Bron Hendre
Ffordd y De
Caernarfon
LL55 2HP
Ffôn: 01286 674 686

Meirionnydd
Canolfan Blant
Y Lawnt
Dolgellau
LL40 1DR
Ffôn: 01341 423121

Dwyfor
Canolfan Iechyd yr Ala
Pwllheli
LL53 5BL
Ffôn: 01758 701000

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd

Swyddfa Ardal Arfon
Penrallt
Caernarfon
LL55 1BN
Ffôn: 01286 682646 Minicom: 01286 682743

Swyddfa Ardal Dwyfor
Canolfan Frondeg
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5RE

Ffôn: 01758 613131 Minicom: 01758 704418

Swyddfa Ardal Meirionnydd
Y Lawnt
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1DS
Ffôn: 01341 424539 Minicom: 01341 423063

**Rhifau Ffôn Argyfwng**
Os oes angen cysylltu â Gwasanaeth Brys Gwasanaethau Cymdeithasol tu allan i oriau swyddfa, gysylltu â'r:

**Tîm tu allan i oriau:** 01286 675502
Llun-Gwener 17:00-09:00
Penwythnos o 17:00 Gwener hyd 09:00 Llun, hefyd Gŵyl y Banc

**Iechyd**

**Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru**
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor
LL57 2PW

Ffôn: 01248 384384
Ffacs: 01248 370629

**Galw Iechyd Cymru**

0845 4647
www.nhsdirect.wales.nhs.uk

**Addysg**

Gwasanaeth Ysgolion Cyfarwyddiaeth Datblygu
Swyddfa’r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Ffôn: 01286 672255
Ffacs: 01286 677347

Arfon
Swyddfa Addysg Ardal Arfon
Swyddfa’r Cyngor Gwynedd Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Ffôn: 01286 672255
Ffacs: 01286 672635

Dwyfor
Swyddfa Addysg Ardal Dwyfor
Swyddfeydd y Cyngor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
Ffôn: 01758 704114
Ffacs: 01758 701178

Meirionnydd
Swyddfa Addysg Ardal Meirionnydd
Cae Penarlâg
Dolgellau
Gwynedd
Ffôn: 01341 422341
Ffacs: 01341 423723

**Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**
Plas Llanwnda
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Ffôn: 01286 679697

**Gyrfa Cymru**

Prif Swyddfa
Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin
5 Llys Castan
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FH
Ffôn: 01248 672800

Canolfannau Gyrfa Leol:

Bangor
Llys Gwynedd
Ffordd Gwynedd
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT
Ffôn: 01248 364682

Caernarfon
Stryd Llyn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2AE
Ffôn: 01286 662930

Porthmadog
10 Heol yr Wyddfa
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9BT
Ffôn: 01766 514501

**SNAP Cymru**
12a Llys Onnen
Ffordd y Llyn
Parc Menai
Bangor
LL57 4DF
Ffôn: 01248 674999

**Colegau Lleol**

**Coleg Meirion Dwyfor (Rhan o Goleg Llandrillo Cymru)**
Ffordd Ty’n y Coed
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2SW

Ffôn: 01341 422827
coleg@meirion-dwyfor.ac.uk

Safle Dolgellau
Ffordd Ty’n Coed
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2SW
Ffôn: 01341 422827

Safle Pwllheli
Penrallt
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5UB
Ffôn: 01758 701385

Safle Glynllifon
Glynllifon
Ffordd Clynnog
Caernarfon
LL54 5DU
Ffôn: 01286 830261

Canolfan Blaenau Ffestiniog
Canolfan Ddysgu Gydol Oes
Llyfrgell Maenofferen
Blaenau Ffestiniog
Ffôn: 01766 832392

**Coleg Menai**

Coleg Menai
Ffordd Ffriddoedd
Bangor
Gwynedd
LL57 1TP
Ffôn: 01248 370125

Coleg Menai
Ffordd Penmynydd
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HY
Ffôn: 01248 370125

www.menai.ac.uk

**Coleg Garddwriaeth Cymru**
Ffordd Llaneurgain
Llaneurgain
Yr Wyddgrug
Sir Y Fflint
CH7 6AA
Ffôn: 01352 841000

**Coleg Llandrillo Cymru**
Ffordd Llandudno
Llandrillo Yn Rhos
Bae Colwyn
Conwy
LL28 4HZ
Ffôn: 01492 546666

**Colegau Arbenigol**

**Coleg Addysg Bellach Pengwern**

Coleg ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed gydag anableddau dysgu.

Coleg Addysg Bellach Pengwern
Lon Sarn
Rhuddlan
Sir Ddinbych
LL18 5UH
Ffôn: 01745 590281

**Coleg Addysg Bellach Hereward**

Coleg preswyl ar gyfer pobl ifanc 16+

Coleg Addysg Bellach Hereward
Bramston Crescent
Tile Hill
Coventry

CV4 9SW
Ffôn: 02476461231

www.hereward.ac.uk

**National Star College**

Coleg Addysg Bellach ar gyfer pobl ifanc 16+ gydag anabledd corfforol/anaf caffaeledig i'r ymennydd

National Star College
Ullenwood
Cheltenham
Gloucestershire
GL53 9QU
Ffôn: 01242 527631

www.natstar.ac.uk

**Skill** ( Biwro Cenedlaethol ar gyfer Myfyrwyr gydag Anableddau)
Ffôn: 0800 328 50 50
www.Skill.org.uk

**Learn Direct**
Ffôn: 0800 100900

**Canolfan Byd Gwaith**

www.jobcentreplus.gov.uk

Ffôn: 0845 6067 890 (llinell Gymraeg)
Ffôn: 0845 6060 234 (llinell Saesneg)

**Cil De Gwynedd**
Uned B1-B3 Parc Busnes Penamser
Ffordd Penamser

Porthmadog
LL49 9GB
Ffôn: 01766 514249

**Agoriad Cyf**
Porth Penrhyn
Bangor
Gwynedd
LL57 4HN
Ffôn: 01248 361 392

Agoriad Cyf
42, Stryd Fawr
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5RT
Ffôn: 01758 701 354

Agoriad Cyf
Swyddfa’r Llawr Isaf
Swyddfeydd NFU
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2NJ
Ffôn: 01341 421 440

**Mantell Gwynedd**

24-26 Stryd Fawr
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1RH
Ffôn: 01286 672626

Yr Hen Orsaf Heddlu
Y Lawnt
Dolgellau
LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575
Ffacs: 01341 422147

**Llinell Ymholiadau Budd-daliadau**
0800 882200
www.dwp.gov.uk

**Canolfannau Cynghori (CAB)**
Llinell Gymorth
0845 4503064

Canolfan Gynghori Bangor
4 Mount Street
Bangor
Gwynedd
LL57 1BQ

Canolfan Gynghori Pwllheli
12 Stryd Penlan
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5DH

Canolfan Cynghori Caernarfon
12/14 Pen-y-Craig
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2AL

Canolfan Cynghori Dolgellau
Adeilad Yr Orsaf Dan

Doldir
Dolgellau
LL40 1HA

**Hawliau Lles Anabl**
Canolfan Lafan
2 Glanrafon
Bangor
Gwynedd
LL57 1LH
Ffôn: 01248352227

**Cronfa Byw'n Annibynnol**
ILF
PO Box 7525
Nottingham
NG2 4ZT
Ffôn: 0845 6018815
www.ilf.org.uk

**Adran Dai**

Ffôn: 01286 672255

Arfon
Gwasanaethau Tai
Cyfadran Gofal
Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL40 2YB

Dwyfor
Cyfadran Gofal
Ffordd Y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA
Meirionnydd

Gwasanaethau Tai
Cyfadran Gofal
Cae Penarlâg
Dolgellau
Gwynedd
LL40 2YB

Bangor
Gwasanaethau Tai
Cyfadran Gofal
Neuadd y Dref
Bangor
Gwynedd
LL57 2RE

**Cymdeithasau Tai**
Esiamplau o rai cymdeithasau tai lleol

**Cymdeithas Tai Eryri**
Tŷ Silyn
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LY
Ffôn: 01286 881588

**Cymdeithas Tai Gogledd Cymru**
Plas Blodwel
Broad Street
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9HL
Ffôn: 01492 572727
**Motability**
Ffôn: 01279 635666

**Canolfan Asesu Gyrwyr Gogledd Cymru**
Canolfan Adnoddau Anabledd
Ysbyty Glan Clwyd
Bodelwyddan
Sir Ddinbych
Ll18 5UJ
Ffôn: 01745 584858

**Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd**
Swyddfeydd y Cyngor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Ffôn: 01758 704109

**Tros Gynnal**
21 c Stryd Fawr
Bethesda
LL57 3AF
Ffôn: 01248 600622

**NYAS**
Ffôn: 0800 616101

**Cynnal Gofalwyr**
Uned 6
Mentec
Bangor
Gwynedd
LL57 2UP

Ffôn: 01248 370 797

**Croesffyrdd Gogledd Cymru**
73a Stryd Fawr
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9EU
Ffôn: 01766 515198

**Cyswllt Teulu**
4Tai’r Felin
Y Felinheli
Gwynedd
LL56 4JF
Ffôn: 01248 670965